YSGOL GYMUNEDOL PENIEL

POLISI CODI TÂL AC INCWM

Datganiad Polisi

Mae Deddf Addysg 1996: Adrannau 449-462 yn pennu'r gyfraith o ran y tâl y gellir ei godi ac na ellir ei godi am weithgareddau mewn ysgolion a gynhelir gan ALlau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Ddeddf yn nodi pa weithgareddau y gall ac na all corff llywodraethu godi tâl amdanynt pan fo'r rhain yn digwydd yn ystod neu'r tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys gweithgareddau preswyl. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y dylai polisiau codi tâl a pheidio â chodi tâl fod ar waith gan bob corff llywodraethu.

Cyflwyniad

Mae addysg yn ystod oriau ysgol yn rhad ac am ddim. Nid ydym yn codi tâl am unrhyw weithgarwch a wneir fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac eithrio gwersi cerddoriaeth unigol neu grŵp.

Yn gyffredinol mae'r ysgol yn gallu ad-hawlio TAW, ond nid yw hyn bob amser yn wir am weithgareddau allgyrsiol – caiff hyn ei adlewyrchu yng nghost ychwanegol rhai pethau.

Cyfraniadau gwirfoddol

Wrth drefnu tripiau, gweithgareddau neu ymweliadau ysgol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiadau addysgol y plant, fe all fod costau'n codi, ac yn sgil hy, mae'r ysgol yn gofyn i rieni gyfrannu tuag at gost trip, gweithgaredd neu ymweliad. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Bydd y rhieni yn derbyn gwybodaeth am natur y trip, gweithgaredd neu ymweliad, ac er na orfodir rhieni i gyfrannu, gallai'r gweithgaredd a fwriadwyd fod mewn perygl o gael ei ddileu oherwydd diffyg arian.

Os codir tâl ar bob disgybl, ni fydd hwn yn uwch na'r gost wirioneddol. Os oes angen codi rhagor o arian, er enghraifft, i helpu achosion o galedi, yna gwneir hyn drwy gyfraniadau gwirfoddol neu drwy godi arian yn gyffredinol.

Mae'r rhestr isod yn restr o weithgareddau ychwanegol a drefnir gan yr ysgol, sydd yn galw am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni. Nid yw'r rhestr yn gyflawn:

- Ymweliad ag amgueddfa, canolfannau diwylliannol, theatr, safleoedd hanesyddol
- Gweithgareddau awyr agored
- Digwyddiadau Cerddorol

Danfonir llythyr i rieni cyn ymweliad, gweithgaredd, gwibdaith, perfformiad ayyb, gan nodi beth yw bwriad yr ymweliad a'r gost.

Efallai y gofynnir i rieni ddarparu rhai eitemau neilltuol fel bo'r plant yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny.

Ymweliadau Preswyl

Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau preswyl yn ystod amser ysgol, neu'n bennaf yn ystod amser ysgol, er mwyn darparu addysg sydd yn uniongyrchol berthnasol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Byddwn yn codi tâl am holl gostau bwyd a llety ac eithrio plant sydd â hawl i ad-daliad statudol.

- Cymhorthdal Incwm;
- Lwfans Ceisio Gwaith - yn seiliedig ar incwm;
- yn derbyn unrhyw fudd-dal neu lwfans arall, neu â hawl i unrhyw gredyd treth o dan Ddeddf Credydau Treth 2002 neu elfen o gredyd treth o'r fath, fel y'u pennir gan reoliadau o dro i dro yn ystod unrhyw gyfnod y cynhelir taith neu ran o daith.

Ar hyn o bryd pennir y canlynol:

- cymorth o dan Ran 6 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999;
- Credyd Treth Plant, cyn belled nad yw'r rhiant/rhieni'n derbyn Credyd Treth Gwaith hefyd ac nad yw incwm y teulu (fel yr aseswyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi) yn uwch na £16,040 (ar gyfer 2009/10) (h.y. plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim).

Bydd y pennaeth yn hysbysu'r holl rieni y gallant hawlio gweithgareddau am ddim os ydynt yn derbyn y budd-daliadau hyn.

Gwersi Offerynnau Cerdd

Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn.

Codir tâl am hyfforddiant cerddoriaeth unigol neu grŵp os nad yw hyn yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae athrawon cerddoriaeth teithiol yn rhoi gwersi i unigolion neu grwpiau bach. Byddwn yn codi tâl am hyn. Byddwn yn rhoi gwybodaeth i rieni am wersi cerddoriaeth ychwanegol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

Nofio

Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio i bob plentyn ar ryw gyfnod yn ystod Cyfnod Allweddol 2. Bydd y rhain yn digwydd yn ystod oriau ysgol ac maent yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni fyddwn yn codi tâl am y gweithgaredd hwn. Byddwn yn hysbysu rhieni pryd y caiff y gwersi hyn eu cynnal a gofynnwn i rieni am eu caniatâd ysgrifenedig er mwyn i'w plant gymryd rhan mewn gwersi nofio.

Gweithgareddau tu allan i oriau ysgol

O dro i dro gall yr ysgol gynnig gweithgareddau ychwanegol fel chwaraeon, yr Urdd, Clwb Coginio a Thecnowych. Y staff sydd yn rhedeg ac yn trefnu'r sesiynau hyn - weithiau gyda help pobl o'r tu allan i'r ysgol. Byddwn yn codi tâl bychan am y sesiynau hyn i dalu'r costau.

Gall rhai gweithgareddau ddigwydd ar adegau sydd yn digwydd cyd-daro gyda chychwyn neu ddiwedd y diwrnod ysgol ac mae gan y Pennaeth yr hawl i benderfynu a ddylid codi tâl amdanynt ai peidio.

O dro i dro gellir cynnal cyngherddau gydag elfen o godi arian ynghlwm wrthynt. Mater i'r Pennaeth yw penderfynu a ddylid codi tâl am ddigwyddiad o'r fath.

Adnoddau

Ni chodir tâl am unrhyw lyfrau gwaith neu lyfrau darllen neu adnoddau o ddydd i ddydd e.e. Pensiliau, Rwberi, Pren Mesur

Gosod

Bydd yr ysgol yn cynnig eu cyfleusterau i eraill ar bris ag amlinellwyd gan yr Awdurdod yn eu Protocol Gosod (Lettings Protocol). Bydd yn rhaid i'r holl ddogfennau gosod gael eu cwblhau bob tro, pwy bynnag sy'n llogi'r cyfleusterau.

Costau Pellach

Bydd yr ysgol yn codi tâl am unrhyw arholiadau allanol, yn cynnwys unrhyw arholiad y mae'r disgybl wedi methu â'i gwblhau am unrhyw reswm.

Bydd yr ysgol yn codi tâl am gyhoeddiadau yn unol â'r drefn a nodir yn y ddogfen Trefn ar gyfer Cyhoeddiadau yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddhau Gwybodaeth 2000 e.e Adroddiad ESTYN

Gwybodaeth Bellach

Mae incwm ac arian codi tâl yr ysgol yn rhan o weithdrefnau archwilio'r AALl i sicrhau cywirdeb ac atebolrwydd

Mater i'r Pennaeth yw penderfynu ar gymorth ariannol i ddisgyblion unigol

Mae unrhyw gyfeiriad uchod at 'Y Pennaeth' i gynnwys y Dirprwy Bennaeth ar adegau ac mewn amgylchiadau sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gymryd drosodd rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth.